

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 5ed CHWEFROR, 2024.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod yn enwedig Mr Melfyn JONES, yr unig ymgeisydd i gymeryd drosoddd Gwaith y Clerc o'r cyntaf Ebrill 2024 ar ymwadawiad y Clerc presennol Mr. Tom JONES. Gwahoddwyd Mr JONES i'r cyfarfod er mwyn trafod os y byddai yn barod i ymgymeryd a'r gwaith.

2. YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Gwenda DAVIES; Irwedd GRIFFITHS; Bryn JONES; D Gwyn JONES; John D ROBERTS;; Goronwy R. WILLIAMS, a'r Cynghorydd Sir Ifor G LLOYD.

3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Glenna HUMPHREY; Gethin OWEN; Hefin WILLIAMS

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffir yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Cafwyd datganiad gan y Cynghorydd D Gwyn JONES ynglun ac un o'r ceisiadau cynllunio. Cyflawnwyd y ffurflen briodol ac fe fu i'r Cynghorydd adael yr yatafell pan y trafodwyd y mater perthnasol.

b. Nid oedd datganiad o ddiddordeb arall gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg o Dachwedd 2023. (Cynnig y Cynghorydd Hefin WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd Bryn JONES.

6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

7. CYLLID

Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnodau dod i ben 20fed o Ragfyr 2023 gyda diwygiad i ddangos incwm o £27.07 llog banc ar y cyfrif busnes. Cafwyd adroddiad y cyfnod dod i ben 20fed

o Ionawr 2024 hefyd. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

Rhagfyr 2023:

(1) Cyfrif Cymunedol	= £5,636.07 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn	= £3,000.00
Arian Allan	= £5.40 (Costau Banc - DR)
	= £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)
	= £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO)
	= £400.00 (Y Llew Gwyn – Cinio Nadolig henoed Llanellian – TAL)
	= £40.74 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL)
Heb ei Cyflwyno	= £50.00 (RBL – Torchau Sul y Cofio – 200153)
<u>Cyfrif Cymunedol</u>	<u>= £7,683.14 (Cludwyd Ymlaen)</u>
(2) Cyfrif Busnes	= £5,614.13 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan	= £0.00
Arian i Mewn	= £0.00 (£27.07)
<u>Cyfrif Busnes</u>	<u>= £5,614.13 (£5,641.20) (Cludwyd Ymlaen)</u>
<u>Cyfanswm</u>	<u>= £13,297.27 (£13,324.34) (Cludwyd Ymlaen).</u>

Ionawr 2024:

(3) Cyfrif Cymunedol	= £7,683.14 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn	= £0.00
Arian Allan	= £5.00 (Costau Banc - DR)
	= £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)
	= £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO)
	= £40.00 (Y Comisynydd Gwybodaeth – GDPR – 200155)
	= £40.74 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL)
	= £152.00 (Taliad tuag at Yr Hwb, betws yn Rhos – TAL)
	= £450.00 (Audit Wales Invoice – Annual Audit – TAL)
	= £55.80 (Aston Hughes – Gwasanaeth Cyflogi – OLP)
Heb ei Cyflwyno	= £50.00 (RBL – Torchau Sul y Cofio – 200153)
<u>Cyfrif Cymunedol</u>	<u>= £6,432.81 (Cludwyd Ymlaen)</u>
(4) Cyfrif Busnes	= £5,641.20 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan	= £0.00
Arian i Mewn	= £0.00
<u>Cyfrif Busnes</u>	<u>= £5,641.20 (Cludwyd Ymlaen)</u>
<u>Cyfanswm</u>	<u>= £12,074.01 (Cludwyd Ymlaen).</u>

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£300.00 – Grant ar gyfer Eisteddfod Calan Mai
£90.00 – Cymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Betws yn Rhos – Rhent y Pafiliwn
£40.74 – BT – Infois misol WiFi.
Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

8. GOHEBIAETH

i. Derbynywyd

- a. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru mlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.
- b. Llythyr o gais gan drefnwyr Eisteddfod Calan mai am arian – Roedd hyn wedi ei benderfynny yng nghyllid 2024/25.

ii. Anfonwyd

- a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
- b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

9. GRANTIAU

i. Ceisiadau i'r Cyngor

- a. Cais am grant tuag at Eisteddfod Calan Mai. Y swm o £300 iw dalu pan dderbynir infois.

ii. Ceisiadau gan y Cyngor

- a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.
- b. Y Clerc yn dal i aros am ffurflenni cais am grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor.

10. CYNLLUNIO - <http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer>

a. Cyfeirnod: 0/51140

Cyfeiriad: Glan Gors Ffordd Galch Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 6BD
Application Type: Llawn Development Type: NewDev
Approval of condition nos 3 (Materials) & 4 (Photographic Survey) of planning approval 0/48997 (Renewal of planning approval 0/43196 (proposed replacement dwelling)0.
Electoral Divisions: Betws Yn Rhos
Community Councils: Cyngor Cymuned Betws yn Rhos Community Council
Cafodd y cais hwn ei gymeradwyo ar yr 8fed Ionawr 2024.

b. Rhif y Cais: 0/51278

Natur y Cais: Llawn

Derbyniwyd: 29/11/2023

Cofrestrwyd: 30/11/2023

Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir

Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos

Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council

Nant Isa Farm Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EFLleoliad:

Newid defnydd tir - safle glampio.

Cafodd y cais hwn ei wrthod ar y 23ain o Ionawr 2024.

- c. Rhif y Cais: 0/51409 LlawNatur y Cais:LlawNatur
Derbyniwyd :22/01/2024 Cofrestrwyd: 25/01/2024
Natur y Datblygiad:Aelwyd
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Airlie Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AT
Gwneud newidiadau a chodi estyniad portsh yn elfen unllawr y ty presennol. Mae'r newidiadau'n cynnwys to teils newydd gyda phaneli solar. Gwneud gwelliannau thermal gan inswleiddio'r waliau allanol gyda gorffeniad rendr neu goed. Addasu'r trefniant mewnol a'r agoriadau allanol. Dymchwel yr ystafell haul bresennol ac adeiladu pergola.
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais yma.
- d. Rhif y Cais: 0/51382 Natur y Cais: LlawNatur
Derbyniwyd : 15/01/2024 Cofrestrwyd: 16/01/2024
Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Land to the East of Llwyn Elian Llanellian, Colwyn Bay, LL29 8UY
Defnydd tir dros dro ar gyfer lleoli carafán sefydlog yn cynnwys llwybr graean dros dro, grisiau pren a maen hir / slab ar gyfer teiars carafanau a choesau cynnal.
Nid oedd gwrthwynebiad cyn belled a bod y ail gyfeiriadedd yn cymeryd lle.

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae'r Archwiliad Blyneddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2024 yn mynd i fod yn 'Archwiliad LlawNatur', a bydd hyn yn meddwl llawer mwy o waith. Dywedodd y Clerc presennol y buasai yn gweithio ar hyn dros y mis nesaf ac ymhellach er mwyn ysgafnhau y gwaith i'r Clerc Newydd.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

- a. Yn dilyn y stormydd diweddar bydd Pont Dolwen yn cau am chydig o ddyddiau er mwyn cael ei harchwilio. Bydd pontydd eraill yn yr ardal hefyd yn cael ei harchwilio yn ogystal a rhai o'r ffyrdd gwledig gan fod rhai ohonynt yn dechrau ymddatod.

13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

- a. Diffibrilwyr. – Bydd Clerc y Cyngor yn nawr yn gwneud yn siwr fod yr offer o hyd yn barod i gael ei ddefnyddio. Gyda golwg hefyd ar edrych i gael diffibrilwr newydd yn ardal Dawn. Mae padiau y ddau difib yn Betws wedi cael ei hadnewyddu gan ei bod wedi cyrraedd diwedd ei dyddiad effeithiol.
- b. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – hyd yn hyn cafwyd dim ymateb am adborth ar gyflwr y llwybrau na dim cynnigion am y Llwybyr Natur. Cafodd y Cyngor Cymuned wybodaeth bod fideo yn cael ei pharatoi i fedru adnabod y lonydd gwyrdd a'r llwybrau.
- ch. Yr Hwb - Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.
- dd. Mae angen ail-osod y gwllau blodau oedd wrth fynedfa y caeau chwarae yn Betws yn Rhos, a'i rhoi yn rhywle arall cyn ei ail blannu. Angen cael sgwrs gyda pwyllgor y caeau chwarae.
- ee. Bydd angen trafod ymhellach ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos. Mae'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r adeiladau gwag a didefnydd sydd ar ei rhestr. Mae angen

trafod mwy am rhywle arall i adeiladu toiledau cyhoeddus yn y pentref. Y Clerc wedi edrych i mewn i brisiau adeilad pre-fab a wedi eiddangos i'r cyfarfod. Bydd angen cael sgwrs gyda rhai o fusnesau y pentref i weld os oedd unrhyw awgrymiadau eraill..

- c. Cwynion am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos. Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir. Y Clerc i ail ysgrifennu i Adran AFFCH gan fod rhan o'r wal ar y llwybyr yn nawr wedi dymchwel hefyd.
- d. Cwynion am barcio amhriodol ym mhentref Llanellian. Y Cynghorwyr i gyfarfod yn y man i drafod y broblem. Gofyn i'r Cynmgor Sir o soes modd rhoi llinell wen ar draws dreif y ty cyfagos.
- e. Mae angen cael trwydded erbyn hyn i osod goleuadau y Nadolig ar y Goeden (Adran 178, Trwyddedu Proses a Gofyniadau Goleuadau Nadoligaedd). Y Clerc i ymgeisio a chwblhau y drwydded cyn y Nadolig nesaf..

14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Cafodd y gyllideb flynyddol ei thrafod a'i chytuno. Mae'r praesept y flwyddyn i ddod wedi ei baratoi, a'l chytuno. Mae'r cais am y presept wedi ei yrru i'r Cyngor Sir, ond dim ymateb hyd yn hyn.

15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.

Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth:

[Overview](#)

[About us](#) [About the Project](#) [What the Project will look like](#) [Processes and Next Steps](#)

[Our work so far](#) [Interactions with other marine users](#)

[Information Hub](#) [Visualisations of the windfarm](#) [Interactive map](#).

16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen, a gobeithir y bydd yr adeilad yn barod iw ddefnyddio yn Mis Mai/Mehefin. Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos o hyn ymlaen nes bod yr adeilad newydd yn Llanellian wedi ei orffen.

17. Y GADLAS

Doedd dim item i'r Gadlas y mis yma.

18. UNRHYW FATER ARALL

- a. Llythyr i'w yrru i AFFCH y Cyngor Sir am y dyddodion mwd sydd yn cael ei adael ar y ffordd rhwng Coed Coch a'r Waen.
- b. Llythyr i'w yrru i AFFCH ynglun a tyllau yn y ffordd ger ffordd i Ysgol y Plas a cresffordd Twnan.
- c. Mae angen cynrychiolydd o'r Cyngor Sir i edrych arol gweithgareddau Ysgol y Plas am mai ond dwy Ysgol mae ein Cynghorydd Sir Ifor LLOYD yn cael goruchweilio. Mae'r Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS yn mynd i wneud ymholiadau.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.15yh.

CADEIRYDD:

John EVANS

CLERK:

Tom Jones

DYDDIAD: 5ed Chwefror 2024